

Cyflwyniad i Ddeddf Adalw ASau 2015 Awst 2016

Mae Deddf Adalw ASau 2015 yn cyflwyno proses lle bydd AS yn colli eu sedd yn Nhŷ'r Cyffredin yn dilyn deiseb lwyddiannus i'w hadalw.

Mae'r Ddeddf yn gosod yr amodau ar gyfer cychwyn deiseb adalw a'r gweithdrefnau sy'n rhaid eu dilyn wrth gynnal deiseb. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno rheolau sy'n llywodraethu pobl a sefydliadau sy'n ymgyrchu dros neu yn erbyn deiseb adalw.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r rheolau ynghylch deisebau adalw.

Ynghylch y daflen ffeithiau

Mae'r daflen ffeithiau yn esbonio:

- pryd ddaeth y Ddeddf Adalw ASau i rym
- sut caiff deiseb adalw ei gychwyn
- crynodeb o'r rolau sy'n rhan o'r ddeiseb adalw
- ble gallwch chi gael mwy o wybodaeth

Beth yw prif reolau'r Ddeddf?

Mae rheolau ynghylch:

- pryd gall deiseb adalw ddigwydd
- faint gall ymgyrchwyr wario ar ymgyrch deiseb
- derbyn rhoddion

Pryd ddaeth y Ddeddf i rym

Daeth y Ddeddf Adalw ASau 2015 i rym ar 4 Mawrth 2016.

Pryd fydd deiseb adalw yn cychwyn?

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno proses lle bydd AS yn colli eu sedd yn Nhŷ'r Cyffredin yn dilyn deiseb lwyddiannus i'w hadalw.

Bydd y Swyddog Deiseb yn agor deiseb adalw ar ôl i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin eu hysbysu bod AS wedi:

- eu cael yn euog o drosedd a derbyn dedfryd o garchar (gan gynnwys dedfryd wedi'i gohirio), neu wedi cael eu gorchymyn i'w cadw yn y ddalfa, heblaw os yw

hyn yn gyfan gwbl o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl

- cael eu gwahardd o Dŷ'r Cyffredin am 10 ddiwrnod eistedd neu 14 diwrnod calendr, neu
- eu cael yn euog o ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar gyfer hawliadau lwfans yn unol â Deddf Safonau Seneddol 2009.

Yn achos ciollfarn, ni fydd y ddeiseb adalw yn cael ei agor hyd nes bod y cyfnod apelio wedi dod i ben heb i'r collfarn, dedfryd neu orchymyn gael ei wyrdroi neu bod pob apêl wedi eu clywed a'u gwrthod.

Unwaith bod Swyddog Deiseb wedi agor deiseb adalw, bydd ar agor i'w lofnodi am 6 wythnos. Os oes o leiaf 10% o'r etholwyr yn yr etholaeth yn llofnodi'r ddeiseb, bydd yr AS yn colli eu sedd a bydd isetholiad yn digwydd. Gall yr AS sydd wedi'i adalw sefyll fel ymgeisydd yn yr isetholiad.

Os yw un o'r amodau uchod wedi'u bodloni ond:

- bod etholiad cyffredinol Senedd y DU i'w gynnal yn y 6 mis nesaf
- bod deiseb etholiadol eisoes yn mynd rhagddo ar gyfer yr AS, neu
- bod sedd yr AS eisoes yn wag

ni fydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hysbysu'r Swyddog Deiseb ac ni fydd deiseb adalw yn cael ei agor.

Bydd deiseb ar agor i'w lofnodi am 6 wythnos. Fodd bynnag, gellid ei gau'n gynnar os:

- bod sedd yr AS yn wag am unrhyw reswm arall (megis ymddiswyddiad)

- bod collfarn, dedfryd, carchariad neu orchymyn cadw yn y ddalfa yr AS yn cael ei wyrdroi, neu
- bod Senedd y DU yn galw etholiad cyffredinol Senedd y DU sydd i'w gynnal o fewn 6 mis o hysbysiad y Llefarydd

Rolau

Rôl y Comisiwn Etholiadol yn y broses yw:

- darparu cyngor a chanllawiau i gynorthwyo pobl i ddeall y rheolau
- Fforfedu rhoddion na chaniateir os oes angen drwy orchymyn llys
- cyhoeddi adroddiad ar unrhyw fater mewn perthynas â gweinyddu deiseb adalw a'r fframwaith ar gyfer gwariant ymgyrchu a rhoddion yn yr achosion hyn

Rôl y Swyddog Deiseb yw:

- agor deiseb adalw
- hysbysu etholwyr bod deiseb adalw wedi'i agor
- goruchwyllo gweinyddiaeth y ddeiseb, gan gynnwys cyhoeddi cofrestr etholwyr sy'n gallu llofnodi'r ddeiseb a hysbysu'r etholwyr hynny o'r ddeiseb
- datgan y canlyniad, gan gynnwys hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
- derbyn cofnodion rhoddion a gwariant a gwneud yn siŵr eu bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Y Swyddog Deisebau yw'r un person â'r Swyddog Canlyniadau mewn etholaeth.

Rôl yr heddlu yw:

- Ymchwilio i achosion o dor-rheolau
- gorfodi cydymffurfiaeth gyda'r gyfraith

Sut caiff ymgyrchwyr deiseb eu rheoleiddio?

Gall pobl neu sefydliadau ymgyrchu dros neu yn erbyn deiseb adalw. Mae'r Ddeddf yn gosod rheolau ar gyfer gwariant a rhoddion ar ymgyrchoedd deiseb. Mae cyfnod penodol lle mae'r rheolau ar wariant a rhoddion yn berthnasol. Gelwir y cyfnod hwn yn y 'cyfnod a reoleiddir'. Bydd y cyfnod a reoleiddir:

- yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl i Llefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r Swyddog Deiseb bod yr amodau ar gyfer agor deiseb wedi'u bodloni ac
- yn dod i ben ar y diwrnod y mae'r Swyddog Deiseb yn hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad y ddeiseb.

Y rheolau gwario

Mae dau fath o ymgyrchwr: ymgyrchwyr 'cofrestredig' a 'heb gofrestru'. Yn ystod y cyfnod a reoleiddir, y terfynau gwario yw:

- £500 ar gyfer ymgyrchwyr heb gofrestru
- £10,000 ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig

Gall person neu sefydliad cymwys gael eu cofrestru drwy roi gwybod i'r Swyddog Deiseb yn ysgrifenedig. Gallwch fod yn ymgyrchydd cofrestredig os ydych yn:

- unigolyn wedi cofrestru ar gofrestr etholiadol y DU neu yn breswlydd yn y DU
- plaid wleidyddol gofrestredig y DU (gan gynnwys pleidiau 'llai')
- cwmni cofrestredig yn y DU sydd gorfforedig yn yr UE ac sy'n rhedeg busnes yn y DU.
- undeb llafur cofrestredig y DU
- cymdeithas adeiladu gofrestredig y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n rhedeg busnes yn y DU.
- cymdeithas cyfeillion, diwydiannol neu ddarbodus wedi'i chofrestru yn y DU.
- cymdeithas anghorfforedig yn y DU sy'n cynnal rhan fwyaf o fusnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig hefyd hysbysu'r Swyddog Deiseb o 'berson cyfrifol'. Y person hwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymgyrchydd cofrestredig yn dilyn y rheolau ar wariant, rhoddion ac adrodd.

Os yw ymgyrchydd yn gwario fel rhan o gynllun ar y cyd gydag un neu fwy o ymgyrchwyr eraill, bydd y gwariant hwnnw yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r holl ymgyrchwyr sy'n rhan o'r trefniant.

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno cofnod gwariant i'r Swyddog Deiseb gyda manylion rhoddion a gwariant. Mae'n rhaid cyflwyno'r cofnod o fewn 30 diwrnod o'r diwrnod ar ôl i'r Swyddog Deiseb hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad i'r ddeiseb.

Gweler ein canllawiau [gwariant a rhoddion](#) i gael mwy o wybodaeth ar y rheolau gwariant.

Y rheolau ar roddion

Mae ymgyrchwyr cofrestredig yn destun rheolau ar roddion y maent yn derbyn tuag at wariant ar ymgyrchoedd deiseb. Mae'n rhaid i roddion dros £500 ddod o ffynhonnell a ganiateir. Ffynonellau a ganiateir:

- plaid wleidyddol gofrestredig y DU (gan gynnwys pleidiau 'llai')
- unigolyn cofrestredig ar gofrestr etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rheiny sy'n gadael cymynroddion
- cwmni cofrestredig yn y DU sydd gorfforedig yn yr UE ac sy'n rhedeg busnes yn y DU
- undeb llafur cofrestredig y DU
- cymdeithas adeiladu gofrestredig y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas cyfeillion cofrestredig y DU
- cymdeithas anghorfforedig yn y DU sydd wedi lleoli ac sy'n cynnal rhan fwyaf neu'r cyfan o fusnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Mae gan ymgyrchwyr 30 diwrnod o dderbyn i wirio a ganiateir y rhodd. Mae'n rhaid i ymgyrchwyr ddychwelyd rhoddion na chaniateir Os nad yw ymgyrchydd yn dychwelyd y rhodd o fewn yr amser yma, byddwn yn cymryd eu bod wedi'i dderbyn. Gallant hefyd fod yn destun camau gorfodi os yw'r rhodd gan ffynhonnell na chaniateir a gall y Comisiwn wneud cais i fforffedu'r rhodd.

Nid yw ymgyrchwyr cofrestredig sy'n bleidiau gwleidyddol (ac eithrio

pleidiau llai) yn adrodd eu rhoddion i'r Swyddog Deiseb gan eu bod nhw'n adrodd eu rhoddion i'r Comisiwn Etholiadol. Mae'n rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig arall adrodd rhoddion dros £500, gan gynnwys rhai na chaniateir, yn eu cofnod i'r Swyddog Deiseb.

Gweler ein canllawiau [gwarant a rhoddion](#) i gael mwy o wybodaeth ar y rheolau gwariant.

Mwy o wybodaeth

Mae'r daflen ffeithiau hon yn seboni'r prif reolau. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau llawn ar gyfer ymgyrchywr deisebu ar [wariant a rhoddion ac argraffnodau](#)

Manylion Cyswllt

Gallwch gysylltu â ni am gyngor ar wariant a rhoddion ac argraffnodau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Cysylltwch â'r Swyddog Deiseb i gael manylion ynghylch cofrestru.

Ffoniwch ar 0333 103 1929. Neu e-bostiwch:

- Cymru:
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr::
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban:
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon:
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'r wefan

www.comisiwnetholiadol.org.uk
<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/home>

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar ein canllawiau, e-bostiwch:
pef@electoralcommission.org.uk.